*Atodiad A*

## Cyd-arolygiad AGGCC/AGIC: Cynllun Gwella

## Ardal: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda/Awdurdod Lleol Sir Benfro

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn Allweddol 1** | | | |
| Tudalen 6 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr heriau penodol a nodwyd yn Sir Benfro yn cael eu hystyried wrth gynllunio darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer:<br>• Lleoliadau brys priodol<br>• Gwasanaethau dychwelyd priodol<br>• Gwasanaethau fforensig priodol<br>• Gofal seibiant | Mae gwaith yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol ynglŷn â gwasanaethau trosglwyddo, i fapio anghenion y sir ar gyfer y dyfodol. Mae cyfleoedd yn cael eu hystyried ynglŷn â mynediad gwell at raglenni addysg, cyfleoedd menter gymdeithasol, ac integreiddio i wasanaethau lleol.<br><br>Mae arolwg o wasanaethau cleifion mewnol yn cael ei gynnal, a fydd yn cynnwys arfarniad o opsiynau ar gyfer darpariaeth cleifion mewnol yn y dyfodol. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd i | Pennaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ac Anableddau Dysgu/Rheolwr y Gwasanaeth Anableddau Dysgu | I'w adolygu ar 1 Awst 2016<br><br>30/06/2016 |



© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7012-5

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn sydd angen ei wella** | **Cam gweithredu'r bwrdd iechyd** | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau priodol ar gyfer pobl ag anghenion heriol/cymhleth. | atgyfnerthu gwasanaethau cymunedol sy'n gweithio tuag at ddull model allgymorth, gyda'r nod o reoli defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned trwy gynnig rhagor o gymorth. | | |
| | **Cwestiwn Allweddol 2** | | | |
| Tudalen 9 | Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r awdurdod lleol i nodi ffyrdd gwell o weithio, gyda'r nod o wella prosesau comisiynu pan fo hynny'n briodol. | Mae swyddi gwag yn Nhîm Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cael eu llenwi'n ddiweddar (gwanwyn 2016). Mae hyn wedi creu capasiti ychwanegol i ategu proses y Panel Comisiynu, i ddarparu hyfforddiant a chymorth, ac i roi cymorth i arweinwyr y Tîm Anabledd Dysgu.<br><br>Bydd arweinwyr y Tîm Iechyd o fewn y timau cymunedol yn cynnwys y canlynol yn rhan o'u cyfrifoldebau:<br>• Craffu ar offerynnau cymorth penderfynu a dogfennaeth ategol ar lefel dîm<br>• Cadeirio cyfarfodydd lle mae'r offeryn cymorth penderfynu yn cael ei drafod a'i gwblhau<br>• Cysylltu â Thîm Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. | Rheolwr Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br><br>Arweinwyr Timau Iechyd Cymunedol | Cwblhawyd<br><br>Dechreuwyd Ebrill 2016 |



© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7012-5

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 9 | Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y cofnodir ac y gweithredir ar adborth mewn modd sy'n rhoi golwg barhaus o'r perfformiad ac sy'n dangos dysgu a gwelliant. | Mae strwythur dangosfwrdd y gyfarwyddiaeth ar waith, gyda chylch gwaith monitro perfformiad. Mae adroddiadau gwasanaeth yn bwydo i mewn i Is-bwyllgor Ansawdd, Profiad, Diogelwch a Sicrwydd y Gyfarwyddiaeth. Mae fforwm dysgu'r gwersi wedi cael ei sefydlu, sy'n bwydo i mewn i strwythurau cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch. | Pennaeth Nyrsio Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu/Pennaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ac Anableddau Dysgu | Dechreuwyd Ionawr 2016 |
| | **Cwestiwn Allweddol 3** | | | |
| Tudalen 12 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff rheng flaen yn teimlo eu bod yn rhan o weledigaeth y bwrdd iechyd trwy wella'r trefniadau cyfathrebu a’r llif gwybodaeth. | Mae strwythur dangosfwrdd y gyfarwyddiaeth ar waith. Mae gan ddangosfwrdd Gwasanaethau Anableddau Dysgu aelodaeth sy'n cynnwys arweinwyr tîm y gwasanaeth yn ogystal â'r arweinwyr proffesiynol perthnasol o fewn y gwasanaeth. Mae hyn yn cefnogi cyfathrebu dwy ffordd a llif gwybodaeth. Mae strwythur rheoli a gweithredu gwasanaethau wedi cael ei adolygu (Mawrth 2016), sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer gweithwyr proffesiynol allweddol a rheolwyr o fewn y strwythur.<br><br>Bydd y rheolwr gwasanaeth yn mynychu cyfarfodydd tîm unigol yn ôl amserlen gylchol. | Pennaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ac Anableddau Dysgu/Rheolwr y Gwasanaeth Anableddau Dysgu/Arweinwyr Tîm | Ar waith Mawrth 2016 |



© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7012-5

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 12 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau TG ar gyfer staff iechyd yn addas i'r diben ac yn cefnogi staff i gyflawni eu swyddi'n effeithiol. | Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn gweithredu system gwybodaeth newydd a leolir ar y we ar system FACE gyfredol (Asesiad Gweithredol o'r Amgylchedd Clinigol). Mae cynrychiolwyr y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn y grŵp gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys rhaglen hyfforddi i sicrhau bod yr holl staff yn gallu defnyddio'r system yn effeithiol. Yn dilyn y gwaith o weithredu'r system, bydd y grŵp llywio'n ystyried sut y gellir lleihau'r defnydd o ddulliau asesu papur, wrth i'r dulliau newydd ddod ar gael ar system newydd FACE/Partner Gofal. | Pennaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ac Anableddau Dysgu/Rheolwr y Gwasanaeth Anableddau Dysgu/Cynrychiolwyr Anableddau Dysgu yn y Grŵp Llywio | I'w gwblhau erbyn 1 Gorffennaf 2016 |

## Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

**Enw (llythrennau bras):** Libby Ryan-Davies

**Teitl:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

**Dyddiad:** 6 Mai 2016



© Crown Copyright 2016 ISBN: 978-1-4734-7012-5